# Adroddiad Blynyddol Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (2025/26)



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

RHONDDA CYNON TAF

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
PUBLIC SERVICES BOARD
CWM TAF MORGANNWG

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3-4** |
| **Aelodaeth** | **5** |
| **Rôl Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg** | **6 - 7** |
| **Datblygu a Chyflawni Rhaglen Waith Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r BGC** | **8 - 9** |
| **Hyfforddiant a Gwybodaeth** | **10** |
| **Ffrydiau Gwaith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu** | **11 - 15** |
| **Edrych i'r Dyfodol** | **16** |

# Rhagair



Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Blwyddyn 2025–2026 y Cyngor. Mae'r adroddiad yn amlinellu sut rydyn ni wedi parhau i graffu ar effeithlonrwydd cyffredinol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ers symud i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig ac aelodau cyfetholedig nad ydyn nhw'n cynrychioli grŵp gwleidyddol o awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yn anrhydedd enfawr i mi gael fy ailbenodi'n Gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Blwyddyn 2025–2026 y Cyngor, gyda chymorth ymroddedig Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Huw David, sef yr Is-gadeirydd. Hyderaf fy mod i'n cefnogi'r Aelodau i weithredu dull craffu gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac fy mod i'n parhau i gefnogi nodau a blaenoriaethau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CTM yn ei ymrwymiad i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Bwrdd.

Mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi gwneud cynnydd ers blwyddyn gyntaf y trefniadau rhanbarthol, gan ddiwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i ehangu'r cwmpas a'r cylch gwaith. Mae bellach yn cynnwys craffu ar y Bartneriaeth Cymunedau Diogel Ranbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rydyn ni hefyd wedi newid y trefniadau presennol ar gyfer penodi Aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg ers hynny, gan gytuno nad yw aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'u cyfyngu i Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cynghorau unigol.

Rydyn ni wedi cryfhau ein trefniadau drwy:-

- Cytuno ar raglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod a fydd yn arwain at drafodaethau da ac yn bennaf cyflawni deilliannau ac argymhellion da;
- Cynnal cyfarfodydd cyn y cyfarfod ffurfiol i sicrhau bod gan Aelodau'r cyfle i drafod yr adroddiadau, gan nodi'r materion penodol a fydd yn cael sylw yn rhan o'r gwaith craffu;
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant wyneb yn wyneb a oedd yn ein hatgoffa o Egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, perthynas y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu â'r BGC a sesiwn a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth. Mae hyn oll wedi sicrhau bod gyda ni'r adnoddau craffu angenrheidiol er mwyn cyflawni'n gwaith.

Mae Cadeirydd y BGC wedi gweithredu dull cynhwysol a chydgysylltiedig o ran deall blaenoriaethau a ffrydiau gwaith y BGC, roedd yn bresennol yn nifer o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cawsom gyfle i graffu ar gynigion y Cadeirydd mewn perthynas â gofynion arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a nodwyd meysydd allweddol y dylid canolbwyntio arnyn nhw i sefydlu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd da. Byddwn ni'n adolygu'r trefniadau yma eto ar ddiwedd y flwyddyn i asesu eu heffaith.


Hoffwn ddiolch i holl aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC CTM, fy Is-gadeirydd, y Cynghorydd Huw David, yr Aelodau Cyfetholedig a Chynrychiolwyr y Dinasyddion am y sylwadau, yr wybodaeth a'r arbenigedd maen nhw'n eu cyfrannu i'r cyfarfodydd.

**Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)**

# Aelodaeth Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf


Y Cynghorydd Gareth Hughes (Cadeirydd)


Y Cynghorydd Jill Bonetto


Y Cynghorydd Barry Stephens


Y Cynghorydd Sera Evans


Y Cynghorydd Craig Middle


Y Cynghorydd Sheryl Evans
Aelod Dirprwyol

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr


Y Cynghorydd Huw David


Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas


Y Cynghorydd Simon Griffiths


*Y Cynghorydd Gary Haines


Y Cynghorydd Tim Thomas


*Y Cynghorydd Freya Bletsoe
Aelod Dirprwyol

*Ers mis Ebrill 2026, mae'r Cynghorwyr Elaine Winstanley a Martyn Williams wedi cymryd lle'r Cynghorwyr Gary Haines a Freya Bletsoe.

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful


Y Cynghorydd Julia Jenkins


Y Cynghorydd Geraint Thomas


Y Cynghorydd David Hughes

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Ms Rachel Rowlands | Bwrdd Iechyd Lleol |
| Mr Andrew Robinson | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ms Anita Lewis | Cynrychiolydd Dinasyddion RhCT |
| Mr Michael J Maguire | Cynrychiolydd Dinasyddion Merthyr Tudful |

# Rôl Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cyflwyno diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd lesiant ar gyrff cyhoeddus penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, gwasanaethau tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru, i gymryd camau gweithredu ar y cyd trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae gofyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wneud y canlynol:

- asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd (Yr Asesiad Llesiant);
- defnyddio'r asesiad hwnnw i bennu amcanion llesiant lleol (Y Cynllun Llesiant);
- cymryd camau gweithredu ar y cyd i fodloni'r amcanion hynny.

Yn rhan o'r dyletswyddau statudol sydd wedi'u rhoi ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac fel y nodir yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, rhaid i Awdurdodau Lleol greu pwyllgor craffu dynodedig i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd. Yn ardal Cwm Taf Morgannwg, cafodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig nad ydyn nhw'n cynrychioli grwpiau gwleidyddol o awdurdodau lleol RhCT, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, ei greu ym mis Mai 2023 i adlewyrchu patrwm rhanbarthol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus newydd Cwm Taf Morgannwg.

Mae Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys 5 Aelod Etholedig o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu pob un o'r tri Awdurdod Lleol er mwyn craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol pob un o'r Pwyllgorau hynny, cyn belled ag y bo'n ymarferol.

## SWYDDOGAETHAU CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF MORGANNWG

Nod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw craffu ar effeithiolrwydd cyffredinol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg. Mae swyddogaethau statudol craidd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cynnwys:-

- Cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yn benodol fel ymgynghorai statudol ar gyfer:
  - Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:
  - Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; a
  - Derbyn Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys manylion y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at fodloni amcanion llesiant lleol yn y Cynllun Llesiant.
- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd neu'r camau y mae'r Bwrdd yn eu cymryd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu'i drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atyn nhw ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny;
- Yn ogystal â'r swyddogaethau uchod, mae modd i Lwybrau Ymholi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gynnwys (ond heb eu cyfyngu), y canlynol:
- Effeithiolrwydd yr Asesiad Llesiant;
- Effeithiolrwydd y Cynllun Llesiant;
- Effeithiolrwydd trefniadau mesur cyflawniad;
- Lefel yr ymrwymiad gan bartneriaid unigol i waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth gyfleu ei waith, ei amcanion a'i ddeilliannau i'w randdeiliaid; ac,
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth drafod cronfeydd cyllid cyfun i fynd i'r afael â blaenoriaethau.

### Trefniadau Aelodaeth Effeithiol y Cydbwyllgor

Mae gweithredu trefniadau aelodaeth effeithiol ar gyfer y Cydbwyllgor yn sicrhau

ymrwymiad tuag at gydweithio ag Aelodau'r Awdurdodau Lleol eraill yn ogystal ag aelodau cyfetholedig. Mae'n gofyn am ddealltwriaeth o rôl a swyddogaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ei strategaethau a'i flaenoriaethau allweddol. Mae aelodau o'r tri awdurdod lleol, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol RhCT a'r aelodau cyfetholedig yn dod ag ymrwymiad a dull craffu ar y cyd sy'n cael ei arwain gan aelodau, yn gweithredu dull herio sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynrychioli mecanwaith pwysig i wella gwasanaethau.

Mae dod ag Aelodau o awdurdodau lleol gwahanol at ei gilydd i gynnal gwaith craffu mewn perthynas â'r BGC yn gofyn am y gallu i weithredu'n wrthrychol ac ar y cyd, ynghyd â dealltwriaeth a pharodrwydd i gael eich arwain gan y Cadeirydd.

# Datblygu a Chyflawni Rhaglen Waith Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r BGC



Cyflwynodd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC CTM broses fwy cadarn o ran pennu rhaglenni gwaith yn ystod 2025-2026. Cafodd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yma ei datblygu yn rhan o broses dan arweiniad aelodau a gweithdy cysylltiedig. Roedd y rhaglen waith yn seiliedig ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) ac roedd yn cynnwys lle i ychwanegu eitemau pellach drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaeth hyn sicrhau bod agenda'r gwaith craffu'n parhau i fod yn amserol ac yn effeithiol.

Yn y gweithdy a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2026 mewn perthynas â'r rhaglen waith cyflwynwyd fersiwn ddrafft o'r rhaglen waith i'r Aelodau gan roi cyfle iddyn nhw ei chwblhau. Roedd hyn yn cynnwys eitemau sy'n weddill o flwyddyn flaenorol y Cyngor a meysydd a phynciau eraill a awgrymwyd ar gyfer craffu yn ôl yr angen. Dim ond aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig) oedd yn bresennol yn y gweithdy, ac fe wnaeth hyn gyfrannu at awyrgylch anffurfiol lle'r oedd pawb yn gyfforddus yn dweud eu dweud, yn cyfrannu at y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol ac yn gallu ymgysylltu'n llawn yn y broses graffu.

Cytunodd yr holl Aelodau y byddai'r rhaglen waith ar gyfer y dyfodol yn cynnwys gwaith craffu mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r meysydd ffocws ar gyfer y dyfodol a bennwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (cafodd yr wybodaeth yma ei rhannu trwy ddiweddariadau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a thrwy ymgysylltu â'r Cadeirydd) ac eitemau a bennwyd gan raglen waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gynllunio strategol, llywodraethu effeithiol, ac

ymgysylltu gweithredol â rhanddeiliaid i ddiwallu anghenion y gymuned, yn enwedig ar gyfer plant a phobl agored i niwed. Yn bwysig, ystyriodd y Pwyllgor hyblygrwydd yn y rhaglen waith hefyd er mwyn gallu ymdrin ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â chytuno ar y rhaglen waith, datblygwyd calendr o gyfarfodydd hefyd a fyddai'n helpu gyda'r gwaith o reoli dyddiaduron ac yn lleihau'r tebygolrwydd o gynnal cyfarfodydd ar yr un pryd (yn enwedig gan ystyried bod yr awdurdodau lleol unigol yn gweithredu amserlenni gwahanol ar gyfer eu cyfarfodydd pwyllgor).

Yn ystod y gweithdy, nodwyd hefyd bod awydd i sefydlu cyfarfodydd cyn y cyfarfod ffurfiol, gan ddilyn model CBSRhCT (cafodd hyn ei gadarnhau trwy adnodd cefnogol a ddarparwyd gan Reolwr Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru), a hynny i gefnogi Aelodau gyda'u llwybrau ymholi, pennu ffocws gwaith craffu ar gyfer y flwyddyn i ddod a sicrhau bod pob aelod o'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Rhoddodd y gweithdy gyfle i aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gryfhau nifer o feysydd:-

- Cytuno ar raglen waith gadarn ar gyfer y dyfodol i sicrhau dull gweithredu cyson a rennir;
- Sefydlu cyfarfodydd i'w cynnal cyn y cyfarfod ffurfiol i helpu gyda gwaith paratoi ar gyfer cyfarfodydd, byddai'r mecanwaith ymarferol yma'n gwella ansawdd a chysondeb y gwaith craffu;
- Pennu calendr o gyfarfodydd - mae amserlen sydd wedi'i threfnu'n dda yn lleihau'r tebygolrwydd o gynnal cyfarfodydd ar yr un pryd ac yn annog presenoldeb; a
- Nodi anghenion hyfforddi a fydd yn cefnogi'r broses graffu.

Mae'r gallu i werthuso anghenion y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rheolaidd yn ddefnyddiol i nodi meysydd i'w gwella a gweithredu newidiadau yn ôl yr angen. Bydd y meysydd arfer da a nodwyd gan aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau am y flwyddyn nesaf. Byddan nhw'n cael eu hadolygu a byddwn ni'n ceisio adborth mewn perthynas â'r meysydd yma i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas at y diben.

# Hyfforddiant a Gwybodaeth



Mae darparu hyfforddiant rheolaidd i aelodau ac aelodau cyfetholedig y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus o ran yr wybodaeth sydd gyda nhw. Gofynnodd yr aelodau'n benodol am sesiwn hyfforddiant 'wyneb yn wyneb' cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Ebrill 2026. Cynigiodd y sesiwn yma gyfle i atgoffa'r aelodau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a swyddogaeth y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi eu dealltwriaeth o'r saith Nod Llesiant a'r ‘Pum Ffordd o Weithio’, effaith hirdymor penderfyniadau yn ardal Cwm Taf Morgannwg, a sut i fynd i'r afael â phroblemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd, a hynny o safbwynt y Ddeddf.

Yn ogystal â hyn, cynhaliodd Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) RhCT hyfforddiant mewn perthynas â phwysigrwydd defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth, a hynny fel bod modd i aelodau'r Cydbwyllgor ddysgu sut mae modd defnyddio data i roi hwb i capasiti ymchwil a'r gallu i gynnal gwaith craffu. Amlinellodd Carfan CYBI, sy'n annog awdurdodau lleol i newid eu diwylliant gan fabwysiadu dull gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, bwysigrwydd defnyddio gwahanol fathau o dystiolaeth i greu darlun mwy manwl, cynnig gwahanol safbwyntiau a meithrin gallu i ddysgu.

Fe wnaeth y rhan o'r hyfforddiant a gynhaliwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus helpu'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i ailgysylltu ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rôl, cyfrifoldebau a blaenoriaethau BGC Cwm Taf Morgannwg ac yn benodol ei berthynas â Chydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r BGC. Roedd yr hyfforddiant hefyd yn egluro blaenoriaethau'r BGC, sydd bellach wedi'u hymgorffori yn rhan o raglen waith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Ystyriwyd bod darparu hyfforddiant yn lleol, gan Swyddogion Cymorth y BGC a charfan CYBI RhCT, yn fwy effeithiol ac anffurfiol, gan feithrin cyfleoedd gwell i drafod a rhannu syniadau. Roedd yr elfen 'wyneb yn wyneb' hefyd yn gyfle rhwydweithio defnyddiol i aelodau, gan roi cyfle iddyn nhw gwrdd ag eraill a rhannu syniadau.

Er y cynhaliwyd hyfforddiant wedi'i dargedu, mae modd i aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ofyn am hyfforddiant pellach yn ôl yr angen drwy gyflwyno cais i'r Cadeirydd neu'r Swyddog Craffu perthnasol, gan sicrhau eu bod nhw'n teimlo'n barod i ymgymryd â'u rôl. Lle bydd newid yn yr aelodaeth, mae modd i'r aelod newydd gael mynediad at fodiwlau hyfforddiant a rannwyd yn flaenorol a chael cipolwg ar ddeunyddiau gwaith blaenorol drwy fynd i wefan RhCT a bwrw golwg ar gylch gorchwyl y Cydbwyllgor.



# Ffrydiau Gwaith y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu

Cynhaliodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu bedwar cyfarfod yn ystod Blwyddyn 2025/2026 y Cyngor gyda chyfarfodydd hybrid/ar-lein yn cael eu cynnal ar 17 Gorffennaf 2025, 3 Hydref 2025, 19 Ionawr 2026 a 21 Ebrill 2026 (cynhaliwyd hyfforddiant ar wahân ym mis Ebrill 2026 hefyd). Mae manylion y meysydd craffu allweddol wedi'u nodi isod:

## Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i archwilio a herio'r BGC mewn modd effeithiol, ac ym mis Gorffennaf 2025 cynhaliodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu waith craffu mewn perthynas ag adroddiad Cadeirydd y BGC a oedd yn trafod gofynion arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gan nodi meysydd allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw a sefydlu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd da. Gofynnwyd am sylwadau ac adborth y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r trefniadau arfaethedig i sicrhau bod y Bwrdd yn addas i gyflawni ei gylch gwaith a'i rôl statudol.

Roedd yr adolygiad amserol yn rhoi cyfle i'r BGC sicrhau bod ei strwythur a'i drefniadau'n parhau i fod yn addas at y diben a bod cyfle i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu roi adborth, gan fod ei brif rôl yn cynnwys dwyn y BGC i gyfrif, er mwyn sicrhau tryloywder ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r BGC. Roedd hefyd yn gyfle i nodi bod angen i'r Cydbwyllgor gynnwys cyfres glir o flaenoriaethau yn ei raglen waith ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y bydd y trefniadau newydd arfaethedig yn darparu dull mwy cryf a chyfrifol o gyflawni amcanion llesiant; ac mae wedi argymell ei fod yn cynnal adolygiad o'r trefniadau ymhen deuddeg mis, i asesu effaith y trefniadau ymhellach.

***Mae cyfleoedd ymgysylltu sy'n cael eu darparu gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi cyfle i'r pwyllgor craffu helpu i adeiladu BGC cynhyrchiol, rhagweithiol a chadarn ar gyfer cymunedau Cwm Taf Morgannwg yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar y BGC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.***

## System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS)

Cynhaliodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu waith craffu mewn perthynas â'r cytundeb rhanbarthol sydd ar waith gyda'r Cynghorau cyfansoddol sef RhCT, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cytundeb yn cynnig dwyn iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd i ddarparu llwybrau cymunedol newydd a chreu model newydd o ofal integredig ar draws

cymunedau Cwm Taf. Bydd yn mynd ati i wella tryloywder wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned.

***Cynhaliodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu waith craffu mewn perthynas â chynnydd Model a Chytundeb Partneriaeth Rhanbarthol y System Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch. Nodwyd y bydd manylion penodol y Cytundeb yn cael ei drafod gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu***.

Cafwyd trafodaeth helaeth rhwng y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, Swyddogion a Chadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Cynghorydd J Gebbie, a roddodd sicrwydd bod y cynigion yn ddatblygiad cadarnhaol a bod y System Gofal Cymunedol Integredig ranbarthol yn gyfle i wella sut mae pob partner yn gweithio i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer trigolion Cwm Taf Morganwg. Bydd y Cytundeb Partneriaeth Ranbarthol yn allweddol o ran galluogi'r dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn ategu ein hamcanion lles corfforaethol yn uniongyrchol i hyrwyddo annibyniaeth.

***Gofynnodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, wrth nodi ei gefnogaeth ar gyfer y Cytundeb Partneriaeth Ranbarthol, fod yr eitem hon yn parhau i fod yn rhan o'i raglen waith ar gyfer y dyfodol fel bod modd cynnal adolygiad mewn perthynas â gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth Ranbarthol ar ddiwedd y flwyddyn yn ogystal â chraffu ar raglen yr Edau Aur (sy'n cynrychioli enghraifft arall o welliant ym maes trefniadau gweithio mewn partneriaeth).***

## Asesiad Risg Newid Hinsawdd y BGC - Rhaglen Ymaddasu i Newid Hinsawdd

Derbyniodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu adroddiad cynnydd a oedd yn canolbwyntio ar y 3 blaenoriaeth a nodwyd o'r 11 risg newid hinsawdd ar gyfer Cwm Taf Morganwg, sef Risg Tirwedd Ôl-ddiwydiannol, ffrydiau gwaith sy'n canolbwyntio ar bwysau ar seilwaith mewn mannau lle mae trefniadau mapio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol yn cael eu defnyddio i nodi seilwaith, risgiau a bregusrwydd lleol, a Chymunedau Gwydn o ran yr Hinsawdd.

Mae'r adroddiad gan Swyddogion y BGC ac asiantaethau partner, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Interlink RhCT a Thrafnidiaeth Cymru, yn nodi cynnydd y tri Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ogystal â'r heriau a wynebwyd wrth sicrhau gweledigaeth y gwaith sy'n rhan o broses Asesiad Risg Newid Hinsawdd BGC CTM drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a phartneriaid, deall cynnydd hyd yn hyn a rhannu gwybodaeth, dysgu ac arfer gorau. Mae deall sut y mae modd i'r BGC wneud y defnydd gorau o arbenigedd ac adnoddau yn lleol ac yn rhanbarthol, cynnwys partneriaid a thrigolion yn rhan o'r gwaith a'u hintegreiddio, yn hollbwysig.

Mae Asesiad Risg Newid Hinsawdd y BGC wedi galluogi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i wneud y mwyaf o rôl a phwrpas y swyddogaeth graffu er mwyn sicrhau bod gwaith a blaenoriaethau BGC CTM wedi'u hymgorffori yng nghymunedau'r rhanbarth ac yn ymateb i anghenion y gymuned. Mae wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith datblygu o'r cam cyntaf, sef ymgymryd â gwaith rhag-graffu mewn perthynas â gwaith y BGC wrth ddatblygu asesiad risg newid hinsawdd ar gyfer Cwm Taf Morgannwg, ac yn hynny o beth sicrhau bod adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cyflwyno mewn perthynas â blaenoriaethau'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Cyfrannodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn benodol at elfennau cyfathrebu ac ymgysylltu'r Rhaglen Ymaddasu i Newid Hinsawdd, a hynny o ran sut y byddai modd integreiddio'r rhaglen ar draws sefydliadau lle mae ystod eang o wahanol ddulliau ymaddasu i newid hinsawdd eisoes ar waith, a sut i gynnwys a diweddaru pobl yn y gymuned.

***Bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i graffu ar Raglen Ymaddasu'r BGC wrth iddi ddatblygu. Bydd y rhaglen yma'n cefnogi cyfraniadau at amcan llesiant y BGC, sef Cymdogaethau Lleol Iach, trwy gydweithio â chymunedau a grwpiau lleol i wella gwydnwch o ran effaith newid hinsawdd a hyrwyddo gweithredu cadarnhaol. Cefnogi Ymrwymiad y BGC bod asesu risg yn gwella dealltwriaeth o risgiau newid hinsawdd ac yn ychwanegu at y dystiolaeth sy'n ymwneud â llesiant ar draws cymunedau Cwm Taf Morganwg.***

## Partneriaeth Cymunedau Diogel Ranbarthol

Yn rhan o'i gylch gorchwyl, mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn chwarae rhan bwysig wrth graffu ar gynnydd y Bartneriaeth Cymunedau Diogel Ranbarthol i wneud y gorau o'r trefniadau cydweithio sydd ar waith rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bartneriaeth Cymunedau Diogel Ranbarthol a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae'r oruchwyliaeth yma hefyd yn sicrhau bod y BGC a'i Fyrddau cysylltiedig, gan gynnwys y Bartneriaeth Cymunedau Diogel, yn glynu wrth y Pum Ffordd o Weithio a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhan o'i waith.

Mae deddfwriaeth gyfredol yn eithrio unrhyw fater arall o raglenni gwaith yr holl bwyllgorau craffu, is-bwyllgorau a Chydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill y mae modd i Bwyllgor Trosedd ac Anhrefn un Awdurdod (adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006) ei drafod.

***Ar ôl cynnal gwaith rhag-graffu mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu Partneriaeth Cymunedau Diogel unigol ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i graffu'n gadarn ar gynnydd y Bartneriaeth Cymunedau Diogel Ranbarthol i sicrhau bod y dull a argymhellir yn cefnogi amcanion Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.***

Yn dilyn llawer o ymgynghori ac adolygiad o themâu cyson ymhlith yr awdurdodau lleol cyfansoddol, dewisodd y Bartneriaeth Cymunedau Diogel Ranbarthol y tair blaenoriaeth ganlynol i'w datblygu:

Mae '**Atal Troseddau Treisgar**' yn cynnwys cam-drin domestig a thrais difrifol, ac yn ymwneud â'r Ddyletswydd Trais Difrifol a'r asesiad anghenion strategol / proffiliau problemau sy'n cael eu datblygu.

Mae '**Hyrwyddo Cydlyniant Cymunedol**' yn ystyried y rôl y gall diogelwch cymunedol ei chwarae yng nghyd-destun cydlyniant gan gynnwys o ran pwysau tai, y galw am lety dros dro, tensiynau ynghylch Tai Amlfeddiannaeth, cynlluniau adsefydlu a gwasgaru a chysylltiad posibl ag agenda Prevent.

Mae '**Creu Mannau Diogel**' yn cynnwys strategaethau ar gyfer canol trefi, yr economi oriau dydd a nos a chysylltiadau â rhaglen 'Protect'.

Dangosodd yr adroddiad cynnydd a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu swm y gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r tair blaenoriaeth megis cynlluniau gwasgaru ceiswyr lloches ac ymgysylltu â chymunedau a hyfforddiant (Ask for Angela). Y gwaith i gyflawni yn erbyn cynllun Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru ac integreiddio gofynion asesu strategol yn rhan o Asesiad Llesiant y BGC. Y flaenoriaeth mewn perthynas â Gwrthderfysgaeth, yn enwedig 'Prevent' a 'Channel'.

Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y flaenoriaeth sy'n ymwneud â Chydlyniant Cymunedol, yn enwedig gwaith sy'n tynnu ar brofiad byw a'r dull 'cymdeithas gyfan' trwy gydweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, trydydd sector a'r sector preifat a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnwys gwybodaeth am yr agwedd hon mewn adroddiadau pellach. Fe wnaethon nhw gyfrannu a thynnu ar brofiad lleol yn ymwneud â phynciau megis pwysau tai, y galw am lety dros dro, tensiynau ynghylch Tai Amlfeddiannaeth, cynlluniau adsefydlu a gwasgaru.

***Cytunodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fod materion Cymunedau Diogel a chanfyddiad cadarnhaol y cyhoedd o ddiogelwch yn allweddol wrth sicrhau bod y BGC yn cyflawni'r Amcan Llesiant 'Cymdogaethau Lleol Iach' ac elfennau o deimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel. Felly, bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i graffu ar weithgareddau'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel Ranbarthol, a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ôl yr angen. Byddan nhw'n parhau i fod yn eitem sefydlog ar yr agenda yn rhan o'i raglen waith ar gyfer y dyfodol.***

**Ymgysylltu â Chadeiryddion y BGC/Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Er mwyn gwella dealltwriaeth y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu o flaenoriaethau'r BGC, mae trefniadau rhyngweithio cyson rhwng Cadeiryddion y BGC a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'u sefydlu.

Mae Cadeirydd y BGC, Mr Paul Mee, yn mynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i roi diweddariad amserol ar y gwaith sy'n mynd rhagddo, mae hyn yn cefnogi trafodaeth ar y materion sy'n cael eu datblygu gan y BGC, ar wahân ac yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn rhaglen waith ar gyfer y dyfodol y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae diweddariadau diweddar wedi cynnwys gwybodaeth am ffrydiau gwaith y BGC ar Newid Hinsawdd, Teithio Iach a Gwydnwch o ran Bwyd yn ogystal â rôl y BGC wrth wella lles a gwydnwch y gymuned. Mae'r olaf yn cynrychioli blaenoriaeth sylfaenol y BGC, sef y corff strategol sy'n gyfrifol am gyflawni ei Gynllun Llesiant ac i gefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r arfer o sicrhau bod Cadeirydd y BGC yn mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn meithrin amgylchedd cynhwysol lle mae modd i aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ofyn cwestiynau ac ymchwilio ymhellach, gan dynnu sylw at bwysigrwydd atebolrwydd a thryloywder rhwng y BGC a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae gan Gadeirydd y Cydbwyllgor wahoddiad parhaol i fynychu cyfarfodydd penodedig y BGC i roi ei ddiweddariadau ar waith craffu ac argymhellion y Cydbwyllgor, sydd wedi helpu i sicrhau dull cydgysylltiedig i sicrhau bod y BGC a'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflawni'u rolau'n briodol.

- Bydd materion allweddol i'w trafod yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2025/2026 yn cynnwys rhag-graffu ar Adroddiad Blynyddol 2025/2026 y BGC, yn benodol o ran a yw'r BGC wedi bod yn effeithiol wrth wneud cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion Llesiant lleol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Llesiant ac a yw'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn fodlon bod y BGC wedi cyfleu ei waith, ei amcanion a'i ganlyniadau'n effeithlon i'w randdeiliaid.

  Bydd hefyd yn craffu ar gynnydd strategaeth newydd Bwrdd Plant Integredig y Bartneriaeth Ranbarthol ar gyfer babanod, plant a phobl ifainc Cwm Taf Morgannwg, o'r enw '***System Gyfan: Calon Gyfan'***.

# Edrych i'r dyfodol...



Yn y flwyddyn nesaf, bydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn anelu at adeiladu ar y meysydd arfer da y mae wedi'u sefydlu eleni:

- Parhau i gynnal sesiwn arddull gweithdy i ddatblygu'r rhaglen waith ar gyfer y dyfodol sy'n cael ei harwain gan aelodau'r Cydbwyllgor ac yn seiliedig ar flaenoriaethau'r BGC/BPR a themâu eraill sy'n dod i'r amlwg;

- Sicrhau bod rhaglen waith y flwyddyn nesaf hefyd yn cael ei datblygu mewn da bryd er mwyn cynnal llif y gwaith craffu mewn perthynas â blaenoriaethau allweddol sy'n effeithio ar gymunedau Cwm Taf Morganwg;

- Pennu calendr o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o reoli dyddiaduron;

- Hyrwyddo'r arfer da o gynnal cyfarfodydd cyn y cyfarfod ffurfiol i ddatblygu themâu a llwybrau ymholi sy'n cefnogi aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gan annog trafodaethau da yn ystod y cyfarfodydd;

- Annog sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb i roi cyfle i aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gwrdd yn anffurfiol a sicrhau bod unrhyw hyfforddiant yn adlewyrchu anghenion y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu;

- Parhau i rannu gwybodaeth a lefelau ymgysylltu cyfredol rhwng Cadeiryddion y BGC/Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fel enghraifft o arfer da sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar ffrydiau gwaith a gweithgarwch y BGC/Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.